# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 4 Tachwedd 2015

Amser: 09.35 - 12.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3292

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Angela Burns AC<br>Keith Davies AC<br>Suzy Davies AC<br>Lynne Neagle AC<br>David Rees AC (Cadeirydd)<br>Aled Roberts AC<br>Simon Thomas AC |
| Tystion: | Yr Athro Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru<br>Eleri Thomas, Prif Weithredwr, Comisiynydd Plant Cymru<br>Hywel Dafydd, Comisiynydd Plant Cymru<br>Yr Arglwydd McNally, Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid<br>Dusty Kennedy, Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid<br>John Wrangham, Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid |
| Staff y Pwyllgor: | Marc Wyn Jones (Clerc)<br>Sarah Bartlett (Dirprwy Glerc) |

| | |
|---|---|
| | Gareth Rogers (Ail Glerc)<br><br>Sian Hughes (Ymchwilydd)<br><br>Sian Thomas (Ymchwilydd)<br><br>Stephen Davies (Cynghorydd Cyfreithiol) |

**TRAWSGRIFIAD**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod (PDF 259KB) Gweld fel HTML (257KB)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r Pwyllgor. Cafwyd ymddiheuriadau gan Ann Jones, John Griffiths a Bethan Jenkins, ac nid oedd neb yn dirprwyo ar eu rhan.

## 2 Craffu ar Adroddiad Blynyddol y Comisiynydd Plant

Bu'r Pwyllgor yn holi'r Comisiynydd yn fanwl am yr Adroddiad Blynyddol. Nododd y Comisiynydd y byddai hi'n cyflwyno nodyn ar Fil Cymru drafft yn fuan.

## 3 Papurau i'w nodi

Cafodd y papurau eu nodi.

### 3.1 Gwybodaeth ychwanegol gan Wasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canol De Cymru yn dilyn y cyfarfod ar 16 Medi

### 3.2 Gwybodaeth ychwanegol gan Ein Rhanbarth ar Waith (ERW) yn dilyn y cyfarfod ar 24 Medi

### 3.3 Llythyr oddi wrth y Gweinidog Addysg a Sgiliau yn dilyn y cyfarfod ar 30 Medi – y Consortia Addysg Rhanbarthol

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn ac o'r cyfarfod yn ei gyfanrwydd ar 12 Tachwedd.

Cytunwyd ar y cynnig.

## 5 Trafodaeth ar y Bil Cymru drafft ac ar yr ymchwiliad i Waith Athrawon Cyflenwi

Byddai'r Bil Cymru drafft yn cael ei drafod mewn cyfarfod yn y dyfodol. Bu'r Pwyllgor yn trafod yr argymhellion drafft yn yr adroddiad ar waith athrawon cyflenwi, a byddent yn cael eu trafod eto yn y cyfarfod yr wythnos nesaf.

## 6 Trafodaeth gyda'r Gwir Anrhydeddus Arglwydd McNally ar Wasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru

Cafodd y Pwyllgor gyflwyniad gan yr Arglwydd McNally ar waith y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru.